Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Brynach
# Hen Dy Gwyn Ar Daf
# Caerfyrddin
# SA34 0EL

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Brynach yng nghanol pentref Llanboidy ger Hendy-gwyn ar Daf yn Sir Gaerfyrddin. Nid yw ardal yr ysgol yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ganran llawer yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae'r disgyblion yn derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 93 o ddisgyblion, rhwng 3-11 oed, ar y gofrestr ac mae llawer wedi derbyn addysg gyn ysgol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae gan o gwmpas 19% o ddisgyblion anghenion addysg ychwanegol. Mae hyn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Saesneg yw prif iaith cartrefi mwyafrif y disgyblion. Prif nod polisi iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion yn ddwyieithog cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2006. Penodwyd y pennaeth presennol yn 2004.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Brynach yw £3,771, sy'n cymharu gydag uchafswm o £18,947 ac isafswm o £3,114 ar gyfer ysgolion cynradd yn sir Gaerfyrddin. Yr ysgol sydd â'r 36ed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 110 ysgol gynradd yn sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod safonau lles y disgyblion yn gadarn ac yn cyfrannu'n dda i'w medrau cymdeithasol a bywyd;
- y profiadau dysgu da a ddarperir;
- bod y rhan fwyaf o'r addysgu'n dda ar draws yr ysgol; a
- bod yna ethos gofalgar sy'n sicrhau fod bron pob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y Pennaeth yn adnabod yr  ysgol yn dda ac yn darparu arweinyddiaeth ddidwyll, feddylgar a phwrpasol;
- bod hunan arfarnu yn effeithiol ac yn llwyddo i adnabod cryfderau a gwendidau yn gywir;
- bod y cynllunio strategol a datblygiadol yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau; a
- bod llywodraethwyr yr ysgol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 ddarparu cyfleoedd cyson i ddatblygu ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm ym mlynyddoedd isaf cyfnod allweddol dau;

A2 sicrhau bod yr arferion da mewn asesu ar gyfer dysgu a marcio yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol; ac

A3 ystyried barn disgyblion am fywyd a gwaith yr ysgol yn fwy cyson wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael a'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn foddhaol neu'n well wrth gymharu â'r cyfartaledd disgwyliedig. Mae bron pob un yn cyrraedd y deilliannau priodol am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae'n bwysig trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd y nifer bach o ddisgyblion sydd ym mhob carfan. Ers 2007, mae cyraeddiadau disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn uwch na'r Teulu, awdurdod lleol a Chymru yn y pynciau craidd (sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol un a Saesneg yn ychwanegol yng nghyfnod allweddol dau). Yr un yw'r sefyllfa wrth gyfuno'r pynciau. Bu gwelliant cyson yng nghanlyniadau lefelau uwch na'r disgwyl yr ysgol yn ddiweddar ac yn aml mae'r canrannau yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. 'Does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ers 2007. Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn cyflawni eu gwaith yn gyson ac yn dangos cynnydd da yn safon yr hyn a gyflawnir o fewn y gwersi a thros gyfnod o amser. Gwelir cynnydd amlwg yn y Gymraeg gan hwyrddyfodiaid uniaith Saesneg.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus ac yn raenus yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gallu ymateb yn synhwyrol i safbwyntiau eraill a chynnig cyfraniadau dilys eu hunain.

Mae safon darllen bron pob un o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol dau, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Deallant yr hyn y maent yn ei ddarllen ac mae bron pob un yn gallu dewis a dethol yn effeithiol rannau penodol o lyfrau at eu defnydd o fewn eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn gallu chwilio am a choladu gwybodaeth o ystod ffynonellau yn hyderus gan ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg ochr yn ochr yn naturiol ac effeithiol.

Ym mlynyddoedd tri a phedwar, mae datblygiad ysgrifennu Saesneg llawer o'r disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm wedi ei ddatblygu'n ddigonol ond erbyn cyrraedd brig yr ysgol mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda yn y ddwy iaith.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach. Cyfranogant yn rheolaidd mewn gweithgareddau ymarfer corff a chwaraeon o fewn yr ysgol ac o fewn clybiau wedi oriau ysgol. Mae'r disgyblion yn gwybod sut i leisio barn a mynegi pryder ynglŷn ag unrhyw

achos o fwlio neu gamymddwyn. Mae bron pob un yn datgan eu bod yn cael eu trin a pharch, yn hapus yn yr ysgol ac yn troi'n hyderus at oedolion am gymorth.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf yn gyson dda tuag at ei gilydd, yr athrawon ac at ymwelwyr. Dangosant barch tuag at bawb ac mae hyn yn nodwedd arbennig yn yr ysgol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, bu canran presenoldeb yr ysgol o gwmpas y canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hynod falch o'u hysgol ac yn cael cyfleoedd addas i fynegi barn drwy eu cyfraniad i'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco. Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol a chânt gyfleoedd aml i gymryd rhan yn nigwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio â gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm 2008 ac Addysg Grefyddol. Mae'r ysgol yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu ar gyfer y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau da. Nodwedd dda yw hyblygrwydd y trefniant yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn sy'n sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae hyn yn datblygu eu hannibyniaeth a'u hunan hyder yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, darllen ac ysgrifennu y disgyblion yn dda ac yn cael dylanwad amlwg ar godi safonau holl garfannau disgyblion yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gallu manteisio'n llawn ar y cwricwlwm ehangach. Fodd bynnag, digonol yw'r ddarpariaeth ar gyfer defnyddio medrau ysgrifennu yn y Saesneg ar draws y cwricwlwm ym mlwyddyn tri a phedwar.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau addas sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion yn dda yn y rhan fwyaf o'r gwersi. Mae'r ddarpariaeth gyfoethog ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Ceir darpariaeth dda i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gyffredinol dda yn y rhan fwyaf o'r gwersi. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod briodol o dduliau a strategaethau ac mae'r disgyblion yn cael eu cymell i wneud cynnydd da. Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion adnabyddiaeth drylwyr o anghenion a diddordebau'r disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safon yr addysgu.

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel a bron yn ddieithriad, rhoddir cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol.

Lle mae'r addysgu yn dda, gwelir defnydd pwrpasol ac effeithiol o feini prawf llwyddiant a chwestiynu treiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen. Lle mae'r

addysgu'n foddhaol, nid yw amseriad y wers yn ddigon cyflym a chollir cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol gyfundrefnau effeithiol i asesu cynnydd y disgyblion. Gwneir defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau'r athrawon i osod targedau addas ar gyfer y disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol dau, mae'r disgyblion yn defnyddio eu targedau yn hyderus i wella safonau. Mae'r gwaith gwerthfawr sydd wedi ei gwblhau gydag ysgolion cyfagos i gynhyrchu portffolio i safoni gwaith yn y Gymraeg yn dylanwadu ar y cynllunio da yn y pwnc.

Mae adborth llafar sensitif yr athrawon yn galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella. Mae marcio gwaith y disgyblion yn llai cyson ac mewn rhai achosion nid yw bob amser yn dangos yn glir y ffordd ymlaen iddynt i wella'u gwaith. O fewn y dosbarthiadau sydd â'r arfer orau mae marcio'r athrawon yn effeithiol a chefnogol gan arwain at gyngor sy'n cynnig y camau nesaf ar gyfer gwelliant yn y tymor byr.

Mae'r broses o Asesu ar gyfer Dysgu yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol, ac mae'r mwyafrif o'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu ac yn defnyddio meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol dau, mae gan yr ysgol drefn o gynnwys y disgyblion i fod yn rhan o'r broses werthuso a gosod meini prawf llwyddiant i'w hunain ac i'r gwersi. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymroddiad disgyblion ac ar safonau'n gyffredinol. Serch hynny, nid yw'r arfer dda hon i'w gweld yn ddigon cyson ym mhob dosbarth.

Mae'r adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion gan amlinellu'r ffordd ymlaen.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles y disgyblion yn dda. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol gan gynlluniau Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a chydraddoldeb yn cael eu hannog a'u cefnogi'n dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol, gan gynnwys y gwasanaethau, meddygol ac argyfwng, i ddiogelu, cefnogi a gofalu am y disgyblion. Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Darperir gwybodaeth dda i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol ac mae trefniadau da ar gyfer sefydlu disgyblion newydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Gwneir defnydd effeithiol o brofion safonol a diagnostig i adnabod y disgyblion sydd ag anghenion neu'r rhai sy'n fwy abl a thalentog. Adolygir cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd er mwyn adnabod cynnydd a nodi'r camau nesaf yn y dysgu. Gwneir defnydd cynhwysfawr o amrediad o strategaethau gyda grwpiau penodol. Mae cefnogaeth dda gan gymorthyddion yn y dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n fedrus gydag asiantaethau perthnasol i ymateb i anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cyfeillgar, gweithgar a chynhwysol, sydd wedi'i seilio ar gefnogaeth a pherthynas gadarnhaol, yn un o gryfderau'r ysgol. Ymdrinnir â materion cyfleoedd cyfartal, a materion parthed amrywiaeth a chydraddoldeb ym mywyd yr ysgol yn effeithiol. Mae'r trefniadau cadarn sy'n bodoli yn sicrhau ymddygiad da ar draws yr ysgol. Llwydda'r ysgol i greu ymdeimlad o undod a phwrpas.

Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol yn llwyddiannus.

Mae safle ac adeilad yr ysgol yn un symbylus, lliwgar a deniadol. Ceir defnydd helaeth o arddangosfeydd i symbylu'r dysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r lle sydd ar gael o fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r toiledau'n lân ac addas a chaiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu arweinyddiaeth ddidwyll, feddylgar a phwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol synnwyr clir o gyfeiriad a diwylliant sy'n ymdrechu am welliant. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer staff newydd yn effeithiol iawn ac yn sicrhau cymorth gwerthfawr i staff ac athrawon cyflenwol. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir ac maent yn gweddu'n dda i ofynion yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn ffocysu'n glir iawn ar gynlluniau gwella. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y staff addysgu wedi'u sefydlu'n effeithiol. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r drefn yn weithredol ar gyfer y staff cynorthwyol.

Mae'r amcanion ar gyfer gwella yn cyd-fynd yn dda â'r cynlluniau gwella ysgol gyfan ac anghenion datblygu unigol. Mae llywodraethwyr yr ysgol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn llawn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r llywodraethwyr wedi ennill gwobr efydd dan nawdd Llywodraethwyr Cymru ym Medi 2011 am eu cefnogaeth i'r ysgol. Caiff y llywodraethwyr ddadansoddiad cryno a chlir o ddata perfformiad yr ysgol gan y pennaeth, ac maent yn wybodus ynglŷn â'r prif faterion sy'n wynebu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn targedu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau'r disgyblion a darpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cyflawni'r Marc Safon Sgiliau Sylfaenol, ac wedi ennill pedair deilen o gynllun Ysgolion Iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol a thrylwyr sydd wedi eu sefydlu ers nifer o flynyddoedd, gan gynnwys dadansoddi data, arfarnu'r ddarpariaeth a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r staff cyfan yn ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithlon ac mae'r llywodraethwyr yn rhan o'r broses drwy herio'r ysgol fel ffrindiau beirniadol. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i leisio'u barn

ar lafar drwy'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud yn gwrando ar farn y disgyblion yn ddigon cyson wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethu penodol a phriodol i'w datblygu. Mae'r cynllun wedi'i gostio ac yn cynnwys amserlenni realistig a meini prawf llwyddiant i helpu i fesur effeithiolrwydd y blaengareddau.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaethau gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn y gymuned ehangach.

Gwneir defnydd da o argymhellion gan yr awdurdod lleol yn dilyn ymweliadau monitro. Gweithredwyd yn llwyddiannus ar bob un o'r argymhellion a ddeilliodd o'r arolygiad diwethaf yn 2006.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned yn dda. Mae'r partneriaethau gydag ymwelwyr a gwirfoddolwyr yn effeithiol iawn ac yn cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned. Mae'r cysylltiadau gyda busnesau lleol yn datblygu'n effeithiol ac mae hyn yn cael effaith bositif ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol a'r safonau a gyflawnir. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion cyfagos ar brosiectau pwrpasol a defnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb yn y broses o gymedroli gwaith disgyblion a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae clwb brecwast a chlybiau ar ôl ysgol llwyddiannus yn cefnogi gwaith yr ysgol yn ddyddiol.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n dda trwy astudiaethau a chysylltiadau gyda gwledydd eraill. Cefnoga'r ysgol elusennau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o anghenion pobl eraill yn effeithiol iawn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir defnydd da o amser, profiad ac arbenigedd y staff ac mae'r cydweithio rhwng athrawon a'r staff cynorthwyol yn dda iawn. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i adnabod anghenion datblygu staff ac fe wneir defnydd priodol o amser paratoi, cynllunio ac asesu.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu o ansawdd da iawn. Yn gyffredinol, mae rheolaeth ariannol yn dda ac mae'r penderfyniadau perthnasol wedi eu seilio ar anghenion gwella. O ystyried ei deilliannau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin y wybodaeth am asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn dau yng nghyfnod allweddol un, ac ar ddiwedd blwyddyn chwech yng nghyfnod allweddol dau yn ofalus. Mae niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar ystadegau perfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall. Tros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y disgyblion yn saith mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol un, wedi bod yn dda. Mae'r canlyniadau yn cymharu'n gyson dda gyda disgyblion mewn ysgolion tebyg mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn gyffredinol mae'r canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl (sef lefel 3), yn dda mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae perfformiad yr ysgol yn fwy anwastad. Mae'r dangosydd pwnc craidd (canlyniadau Cymraeg neu Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg wedi eu cyfuno) wedi amrywio o'r 50% uchaf o ysgolion i'r 25% isaf drosy tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r disgyblion yn 11 mlwydd oed ar y lefel uwch na'r disgwyl (sef lefel 5) wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ysgolion cyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg ond yn is ym mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol, tros gyfnod nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched na rhwng y pyniciau unigol yn y ddau gyfnod allweddol. Yn ogystal, nid oes gwahaniaethau amlwg yng nghanlyniadau diwedd cyfnod allweddol un a dau o fewn grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion â hawl i ginio am ddim a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r disgyblion hyn, ar y cyfan, yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy'n unol â'u gallu.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Daeth 18 o ymatebion i law.  Mae pob un yn datgan fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd.  Mae pob un o'r farn fod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a'u bod yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

Mae pob un rhiant o'r farn fod yr addysgu'n dda, eu bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plant a'u bod yn fodlon â'r cynnydd a wna eu plant.

Mae pob un yn datgan fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer y disgyblion.  Credant fod y staff yn trin pob plentyn yn deg gyda pharch ac yn cynnig cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae llawer hefyd yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a theimlant yn esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol.  Mae pob un yn credu fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i'r disgyblion

Cwblhaodd 42 o ddysgwyr yr holiadur.  Mae'r dysgwyr oll yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llawer yn datgan fod yr ysgol yn eu dysgu i gadw'n iach a bod yna llawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae llawer yn datgan eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.  Dywedant fod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Maent hefyd yn gwybod â phwy i siarad os byddant yn gweld y gwaith yn anodd a theimlant fod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer eu gwaith.

Noda ychydig nad yw ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol a bod camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Llyr Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceirios Jenner | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.